**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**18 GORFFENNAF 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 18 Gorffennaf 2024.

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Y Cynghorydd Sam Swash (Cadeirydd)** |
| Y Cynghorwyr: | Mel Buckley, Tina Claydon, Carol Ellis, Gladys Healey, Dave Mackie, Hilary McGuill, Billy Mullin a Debbie Owen |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Andy Hughes a Roz Mansell |
| **DIRPRWYON:** | Y Cynghorydd Gina Maddison (ar ran y Cynghorydd Fran Lister) |
| **HEFYD YN BRESENNOL FEL ARSYLWYR:** | Y Cynghorwyr Alasdair Ibbotson ac Arnold Woolley |
| **CYFRANWYR:** | Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol);<br>Uwch Reolwr - Diogelu a Chomisiynu;<br>Rheolwr Comisiynu (ar gyfer eitem 14 ac 17 ar y rhaglen)<br>Swyddog Cynllunio a Datblygu – Partneriaethau, Datblygiad a Pherfformiad) (ar gyfer eitem 16 ar y rhaglen) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

## 12 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 13. RHAGLEN WAITH AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Rhaglen Waith bresennol y Pwyllgor ac Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu i'w hystyried a chroesawodd unrhyw gwestiynau gan Aelodau.

Yn dilyn cais am y wybodaeth ddiweddaraf ar Brosiect Mockingbird a Gofal Maeth, awgrymwyd bod adroddiad yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref, yn ogystal ag adroddiad ar wahân ar y Canolbwynt Diogelu.

Yn dilyn cais i ailddechrau ymweliadau i gwrdd â staff rheng flaen sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol Plant yn Sir y Fflint, fel yr argymhellwyd wedi'r ymchwiliad i farwolaeth Victoria Climbie. Awgrymwyd edrych ar hyn ym mis Medi / Hydref. Byddai hyn yn rhoi amser i gysylltu â gwasanaethau gweithredol i drefnu ymweliad.

Cefnogwyd yr argymhellion yn yr adroddiad ynghyd â'r ychwanegiadau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Waith;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Waith yn ôl yr angen.

(c) Nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

**14. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2023/24 (TERFYNOL)** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn crynhoi swyddogaethau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella fel y'u nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA). Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor ar gyfer sylwadau, a chyflwynwyd y drafft terfynol heddiw cyn ei gyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf 2024.

Yn dilyn cais am ddiweddariadau rheolaidd ar y Tu Allan i'r Sir, cytunwyd y byddai'r rhain yn cychwyn unwaith y byddai'r Gweithdy Aelodau wedi'i gynnal yn yr Hydref.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn adolygu ac yn cefnogi Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/24 a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25.

**15. RHAGLEN GYFALAF GOFAL PLANT A'R BLYNYDDOEDD CYNNAR 2022-2025** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a esboniodd fod Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru (LlC) yn edrych ar wella a datblygu adeiladau a lleoliadau ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar. Cwblhawyd Cam 1 ym mis Mawrth 2024 a disgwylir i Gam 2 ddod i ben ym mis Mawrth 2025. Darparwyd amlinelliad o'r amserlen dynn ar gyfer cyflawni Cam 2 ar gyfer y ddau safle yn y Fflint a Threuddyn.

Cytunwyd i ddosbarthu'r adroddiad Digonolrwydd Gofal Plant wedi'i ddiweddaru i Aelodau'r pwyllgor.

Yn dilyn cwestiwn ynghylch p'un a gysylltwyd â phob ysgol a chynnig cyfle i wneud cais, cytunodd y Prif Swyddog i gysylltu â Gail Bennett a rhoi ymateb.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r cyflwyniad i Raglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar 2022-2025 ar gyfer cynllun Parc Cornist yn y Fflint, er mwyn symud ymlaen o'r cam 'dechrau prosiect' ac i ofyn am gytundeb â cham 'dylunio ac adeiladu' y rhaglen gan Lywodraeth Cymru.

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi proses Dyfarnu Uniongyrchol i benodi contractwr profiadol i orffen erbyn terfyn amser LlC, sef 31 Mawrth 2025. Byddai'r dyfarniad drwy fframwaith presennol Pagoba.

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi bod Ysgol Terrig/Ysgol Parc y Llan, Treuddyn yn ail brosiect posibl, yn amodol ar waith pellach gyda phartneriaid. Pe bai opsiynau'n ddichonadwy o fewn yr amserlenni a ragnodwyd gan Lywodraeth Cymru, ceisir cymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen yn seiliedig ar yr amserlenni, y costau a'r cytundeb partneriaeth.

**16. CODI TÂL AM BENODIAD** (Dolen i'r recordiad)

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu yr adroddiad a oedd yn ymwneud ag awgrym o godi tâl am Benodiad am achosion a weinyddir drwy Dîm Asesu a Chodi Tâl yr Awdurdod Lleol. Rhoddwyd amlinelliad o'r ddau opsiwn sef Penodai'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu Ddirprwy'r Llys Gwarchod (COP). Eglurwyd nad oedd hyn yn ymwneud â chynhyrchu incwm ond ei fod er mwyn sicrhau bod y costau'n cael eu talu.

Ar ôl i'r Cynghorydd Alasdair Ibbotson rannu trydydd opsiwn, teimlai'r Uwch Reolwr y byddai angen gwneud dadansoddiad manwl ar yr opsiwn hwn.

Awgrymodd y Prif Swyddog y set ganlynol o egwyddorion arweiniol y dylid eu gwirio'n gyson wrth redeg y cynllun hwn, er mwyn sicrhau ei fod:-

- yn deg a chyfartal,
- yn glir,
- mor syml â phosibl yn seiliedig ar y gallu i dalu costau (gallai fod tensiwn yn y dyfodol lle byddai'r gallu i dalu yn golygu na ellid ei adennill yn llawn) - byddai wedyn yn dod yn ôl i'r pwyllgor.
- yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Pe bai'r pwyllgor yn darparu'r amlinelliad, gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol ynghylch yr adolygiad, y gallu i dalu a'r canllawiau a awgrymwyd, yna byddai hynny'n galluogi'r tîm i symud ymlaen. Yna gallai'r Cabinet edrych arno cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

Teimlai'r Cadeirydd y byddai codi'r trothwy i £6k yn diogelu'r rhai sydd â'r gallu lleiaf i dalu. Hefyd yn cysylltu unrhyw gynnydd â chredyd cynhwysol fel na allai ddod yn anfforddiadwy oherwydd cynnydd mewn costau i'r Cyngor.

Cefnogwyd yr argymhelliad, gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o weithredu strwythur codi tâl ar gyfer achosion o Benodiadau a reolir gan awdurdodau lleol.

(b) Bod y pwyllgor o blaid cynnwys opsiwn 3 yn yr ymgynghoriad.

**16a DEDDF LLYWODRAETH LEOL (HAWL I WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

Ystyrir bod yr eitem ganlynol yn eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 14, Rhan 4 yn Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).
Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion contractau arfaethedig, ac mae budd y cyhoedd wrth beidio â datgelu'r wybodaeth yn drech na budd y cyhoedd o'i datgelu nes y bydd y contract wedi ei ddyfarnu.

Cytunodd y Pwyllgor i symud y cyfarfod i Ran 2.

**17. AILGOMISIYNU GWASANAETHAU GOFALWYR DI-DÂL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am y dyletswyddau statudol a osodwyd ar yr Awdurdod Lleol o ran cefnogi gofalwyr a'r gwasanaethau a ddarperir drwy Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Cadarnhawyd bod adolygiad o'r holl lwybrau a gwasanaethau wedi'i gynnal. Darparwyd gwybodaeth am Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r newidiadau a wnaed yn dilyn yr adolygiad. Cynigiwyd bod Gwasanaethau Gofalwyr yn cael eu hailgomisiynu o fis Ebrill 2025 am gyfnod o bum mlynedd i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol.

Cafodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad eu cefnogi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn cydnabod yr adborth a gafwyd yn lleol mewn perthynas â gwasanaethau gofalwyr fel rhan o'r adolygiad.

(b) Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chefnogi'r cynigion a wnaed ar gyfer ail-gomisiynu gwasanaethau gofalwyr am gyfnod o bum mlynedd yn dechrau o fis Ebrill 2025, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer dyfarnu contractau gwerth dros £2 filiwn.

**18. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.06pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd eu gwe-ddarlledu, ac mae modd eu gwylio drwy fynd i’r llyfrgell gwe-ddarllediadau yma: http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home